# Ymateb CFfI Cymru i Ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Reoli Tir yn Gynaliadwy

## Cyflwyniad

Hoffai CFfI Cymru ddiolch i Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cyfle i fynegi ei safbwyntiau.

## Cefndir

Mae gan CFfI Cymru bron iawn 6,000 o aelodau ifanc 10-26 oed o bob cwr o Gymru. Rydym yn fudiad blaengar sy'n barod i gofleidio newidiadau er gwell ac annog datblygiad ieuenctid gwledig y wlad.

## Sut ydym am weld rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru yn edrych a pha ganlyniadau rydym am eu sicrhau yn y tymor byr, canol tymor a'r tymor hir?

Mae'n rhaid i reoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru gynnwys tri maes: yr amgylchedd, bywyd gwyllt, ond yn hanfodol, cynhyrchu da byw. Gwŷr unrhyw ffermwr fod yn tri yn mynd law yn llaw ac ni all unrhyw un ohonynt lwyddo heb y gweddill.

Yn aml iawn, diffinnir cynaliadwyedd fel cynnal amgylchedd. Fodd bynnag, prin yw gwerth amgylchedd i'r dyfodol heb bobl ynddo. Felly, i sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru, yn ogystal â gwarchod ei hamgylchedd, rhaid iddo hefyd olygu gwarchod dyfodol ein cymunedau a'r sawl sy'n byw ac yn gweithio ynddynt. Os esgeuluswn yr olaf o'r rhain, bydd cymunedau'n gwywo a marw.

Fel ffermwyr, byddwn yn clywed llawer iawn ynghylch sut gall amaethyddiaeth Cymru a Phrydain ymdopi â phoblogaeth byd-eang sy'n cynyddu'n barhaus. Fodd bynnag, cyn ystyried y byd, rhaid inni ystyried ein hunain yn gyntaf. Yn y lle cyntaf, credwn fod angen i system rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru ein cynnal ni, pobl Cymru a Phrydain.

Mae nodau tymor byr mewn amaethyddiaeth (y rhai sydd ag unrhyw werth go iawn, o leiaf) yn anodd eu cyflawni. Credwn felly fod angen inni ystyried llwyddiant tymor hir, gan ganolbwyntio ar wneud Cymru yn fwy hunangynhaliol fel blaenoriaeth. Gwneir hyn ar y cyd ag agweddau amgylcheddol ffermio a rheoli tir. Gellir ennill arbedion o ran lleihau ein hôl troed carbon trwy ffermio'n dra-chywir, gwella bridio gan olygu llai o fewnbynnau, a defnyddio offer arloesol. Os bydd Cymru'n anghynhyrchiol, bydd arni angen mewnbwn uchel, a wnaiff gynhyrchu ôl troed carbon uwch.

## Beth yw'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag sicrhau'r canlyniadau hyn yn awr? Sut allwn oresgyn yr heriau hyn?

Caiff rhai o'r rhwystrau sy'n bodoli eu creu trwy ganolbwyntio'n llwyr ar yr amgylchedd ac anifeiliaid gwyllt bychan: dull sydd bron iawn yn gibddall er lles yr hyn sy'n bodoli yn lle ystyried strategaeth gydgysylltiedig, tymor hir. Er ein bod yn cefnogi'r cynlluniau Glastir newydd yn llwyr, rhaid cofio hefyd fod cefn gwlad hefyd yn bodoli i warchod ein da byw. Enghraifft sy'n darlunio'r ddadl hon yw ffensys dwbl ac ailblannu hen wrychoedd. Mae hyn yn arfer amaethyddol da sy'n darparu cynefinoedd i fywyd gwyllt, ond i ychwanegu rhywbeth defnyddiol a chynaliadwy at hyn, gellid caniatáu i'r gwrych aildyfu ac yna ei blygu yn y dulliau traddodiadol, â ffens dynn fel bydd y gwrych yn cynnig lloches rhag y gwynt a'r glaw i dda byw newydd-anedig yn ystod misoedd anodd y gaeaf. Fe wnaiff gwrych sydd wedi'i thocio'n dynn barhau'n drwchus yn ei bôn am lawer rhagor o flynyddoedd na gwrych y caniateir iddi dyfu allan ac i fyny. Fe wnaiff hyn ddarparu amgylchiadau da i fywyd gwyllt, a chyflawni'r nod o gynorthwyo da byw. Fodd bynnag, yn ôl ein dealltwriaeth o'r cynlluniau presennol, ni ellir caniatáu taliadau gorgyffyrddol. Felly, os derbynnir taliad dan un system, bydd dwylo'r ffermwr wedi'u clymu i raddau.

Er bod pethau'n gwella, credwn canfyddiad y cyhoedd o sut gwarir arian trethdalwyr ar amaethyddiaeth ym Mhrydain yn wael. Mae'r rhaglen difa moch daear yn Lloegr a'r sylw a gafodd hynny wedi gwneud niwed pellach i ganfyddiad y cyhoedd o'n diwydiant. Mae'r sylw hwn

wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar y moch daear, heb ystyried y canlyniadau torcalonnus a ddioddefir gan ffermwyr sy'n colli eu da byw, sydd wedi cymryd cenedlaethau i'w datblygu mewn rhai achosion. Mae hyn wedi pwysleisio inni fod angen datblygu cysylltiadau llawer cryfach â'r cyhoedd ym Mhrydain, ac yn ein hachos ni, y cyhoedd yng Nghymru. Er gallwn ymdrechu i fynd i'r afael â hyn ac rydym yn gwneud hynny, ni allwn wneud hynny ein hunain.

Credwn fod canfyddiad y cyhoedd o sut gwarir arian trethdalwyr yn wael. Ystyrir fod symiau sylweddol iawn o arian yn cael eu rhoi i ffermwyr, ac ni ydynt yn deall pa enillion sy'n deillio o hynny. Mewn gwirionedd, darperir yr arian hwn i gynorthwyo'r boblogaeth i fwydo'u teuluoedd am lai o arian. Mae costau'n cynyddu'n gyson, felly mae'n rhaid i'n cynnyrch mwy nag adennill ei gostau. Fodd bynnag, mae llinell denau rhwng ennill digon o arian i oroesi a phrisio ein hunain allan o'r farchnad.

Os ydym yn fodlon cystadlu â chynhyrchwyr ym Mrasil sydd â rheolau rheoli tir sydd wedi'u llacio a chynhyrchwyr yn Seland Newydd a all ddefnyddio llawer mwy o feddyginiaethau na ni ac sydd ag ymagwedd llawer mwy rhyddfrydol at reoli plâu, yna mae'n rhaid i rywbeth gydbwyso hynny os dymunwn i Gymru barhau i gynhyrchu bwyd i'r dyfodol.

Felly, gan ystyried y diwygiadau arfaethedig yn nhaliadau'r PAC (mae ymgynghori yn dal i ddigwydd ynghylch y manylion), mae hyn yn debygol o gael ei dynhau ymhellach. Bydd taliadau newydd y PAC yn un o'r prif ffactorau ysgogol sy'n dylanwadu ar ddulliau a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd ac mae angen gwella hyder y gymuned amaethyddol i fod yn barod i ymdopi â thoriadau mewn taliadau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Deallwn fod y darlun ymhell o fod yn wastad, ond credwn hefyd fod angen inni wybod fod ein llywodraeth yn barod i weithio gyda ni, nid newid yr amcanion yn rheolaidd.

**<u>Beth yw'r prif yrwyr polisi a sut gellir llunio hyn i oresgyn yr heriau hyn?</u>**

Fel y dywedwyd eisoes, clywn yn aml ynghylch sut gall amaethyddiaeth ymdopi â phoblogaeth fyd-eang sy'n dal i gynyddu. Mae hyn yn awgrymu fod y llywodraeth am inni gynhyrchu bwyd. Fodd bynnag, caiff hyn ei wrth-ddweud gan elfen "werdd" Glastir, sy'n annog 75% o borfa barhaol; yn syml, ni all y ddau gydfodoli (gan gymryd yn ganiataol fod ein dealltwriaeth o ystyr porfa barhaol yn gywir). Mae angen mynegi neges gliriach: mae cynllunio menter busnes cynaliadwy yn anodd iawn pan newidir blaenoriaethau ac agendâu yn rheolaidd.

Ystyriwn y dylai cyfyngu ar ôl troed carbon ein gwaith cynhyrchu bwyd fod yn yrrwr allweddol. Gellir lleihau colledion carbon trwy annog a chymell y defnydd o arloesedd (er enghraifft, hadu slot a phwytho'r tir) i gyflawni dulliau mwy cynhyrchiol a wnaiff sicrhau effeithlonrwydd uwch. Bydd effeithlonrwydd uchel y tir yn golygu defnyddio llai o wrteithiau a thanwydd, ac felly, ôl troed carbon is.

Fel y dywedir uchod, rydym yn disgwyl canlyniad cynigion newydd y PAC. Mae hyn yn achosi penbleth, oherwydd credwn fod angen mynd i'r afael â'r ddau fater gyda'i gilydd, a gallai ein hymateb i'r ymgynghoriad newid os newidir y cynigion ynghylch newidiadau PAC.

**<u>Sut ydym yn diffinio ecosystemau a gwasanaethau ecosystem allweddol mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i Gymru?</u>**

Mae ecosystemau yn golygu cydbwysedd, ond dylai'r cydbwysedd hwn ystyried mwy na'r amgylchedd naturiol yn unig. Mae poblogaeth Cymru yn cynyddu, ac mae angen inni sicrhau y caiff cydbwysedd ecosystemau ei gynnal, ond mewn modd sy'n gweithio i'n poblogaeth ac yn gwneud synnwyr i Gymru. Mae hyn yn cynnwys ein hanghenion i fwyta a byw. Felly, mae angen inni ystyried yr angen i gynhyrchu bwyd, ynni a thai mewn modd sy'n diwallu'r anghenion hyn.

Rhaid defnyddio ynni adnewyddadwy yn gyfrifol i warchod ecosystemau. Gellir gwneud rhagor i annog ffermwyr, tirfeddianwyr a'r boblogaeth yn gyffredinol i gofleidio ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, rhaid inni gofio fod arwynebedd tir Cymru yn gyfyngedig, felly, i lwyddo i gynnal twf gan gydbwyso'r holl anghenion uchod, datblygu'r hyn sydd gennym eisoes yw'r unig ffordd ymlaen. Er enghraifft, annog y defnydd o baneli solar ar doeau, nid datblygu caeau solar.

Dylem hefyd sicrhau fod cydbwysedd bywyd gwyllt yn cael ei gynnal, gan ystyried sut mae ffermio wedi bod yn rhan o'r ecosystem honno yn hanesyddol. Er enghraifft, mae cynnydd yn yr achosion o diwberciwlosis wedi cyd-daro â'r gwaharddiad ar gladdu stoc marw ar ffermydd. Er nad oes gennym ddata empirig, rydym yn cwestiynu a yw'r enghraifft hon o ddiddymu un o ffynonellau bwyd ysglyfaethwyr cigysol megis moch daear wedi'u gorfodi i grwydro'n ehangach, ac yn sgil hynny, lledaenu'r clefyd ymhellach. Ni all fod yn gyd-ddigwyddiad ychwaith fod nifer yr adar sy'n nythu ar y ddaear a mamaliaid bychan wedi gostwng law yn llaw â hyn.

**__Sut ydym yn datblygu llinell sylfaen iesur cynnyddf? Mae hyn yn cynnwys sut ydym yn casglu, cydgysylltu a defnyddio data i gefnogi rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru.__**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am awgrym o linell sylfaen i'w defnyddio i fesur ein cynydd o ran pa mor hunangynhaliol yr ydym fel gwlad. Yn yr 1980au cynnar, roeddem yn 78% hunangynhaliol, a bellach, rydym yn 58.9% hunangynhaliol. Mae hyn yn golygu fod 40% anhygoel o'r hyn a ddefnyddiwn yn cael ei fewnforio. Bu cnnydd o 5% i 3,063,456 ym mhoblogaeth Cymru erbyn 2011. Dyma duedd sy'n debygol o barhau. Awgrymwn felly y dylid defnyddio 58.9% fel llinell sylfaen ac annog ein ffermwyr i barhau i gynhyrchu bwyd sydd ymhlith y gorau yn y bydd o ran ei ansawdd a chynhyrchu rhagor yn unol â hynny.

**__Sut gallwn sicrhau fod ein polisïau rheoli tir yn gynaliadwy yn cynnal cymunedau gwledig llewyrchus ac yn denu newydd-ddyfodiaid i'r sector diwydiannau'r tir?__**

Rydych yn gofyn sut gallwn sicrhau fod polisi yn cynnal cymunedau gwledig llewyrchus ac yn denu newydd-ddyfodiaid i sectorau diwydiannau'r tir. Credwn fod angen inni sicrhau dyfodol i'r sawl sydd eisoes yn gweithio yn y sectorau hynny cyn ystyried denu newydd-ddyfodiaid. Mae gan nifer fawr o ffermwyr ifanc sawl swydd i ganiatáu iddynt ddal dau ben llinyn ynghyd neu gymryd y cam cyntaf tuag at hunangyflogaeth. Ni fydd y sector diwydiannau'r tir yn ddeniadol nes daw'n yrfa broffidiol. Gallwn ystyried ffrydiau incwm eraill megis ynni adnewyddadwy i greu incwm ychwanegol, ond yn y bôn, ffermwyr ydym ni a chynhyrchu yw ein gwaith.

Mae'n rhaid i'r gwaith o ddenu newydd-ddyfodiaid i'r sector diwydiannau'r tir ganolbwyntio ar bobl ifanc. Rydym mewn sefyllfa dda i gynorthwyo i gyflawni'r amcan hon oherwydd ystadegau demograffig ein haelodaeth. Bydd ein haelodau'n cwyno nad yw cynghorwyr gyrfaoedd yn gwybod llawer am y cyfleoedd sydd ar gael yn sectorau diwydiannau'r tir (yn enwedig yn achos pobl ifanc academaidd), a gellid gwella'n sylweddol y ddealltwriaeth o ffyrdd o gychwyn yn y diwydiannau hyn. Wrth wneud penderfyniadau am yrfaoedd i'r dyfodol, bydd pobl ifanc yn ystyried a allant ddatblygu gyrfa gynaliadwy iddynt hwy eu hunain yn y dyfodol yn y maes o'u dewis. Bydd hyn yn golygu sicrhau bwyd digonol, tai ac ynni rhad. Yn rhy aml, bydd cymunedau gwledig yn dioddef gan ddiffyg tai fforddiadwy, costau tanwydd uchel a diffyg mynediad at fand llydan. Bydd y symudiad at ddarparu gwasanaethau ar-lein yn unig yn broblem os na fydd gan y sawl sy'n ceisio cyrchu'r gwasanaethau hynny fynediad at y rhyngrwyd. Rhaid ystyried hyn wrth ddatblygu polisïau yn ymwneud â rhannu gwybodaeth a dulliau o gefnogi cymunedau gwledig. Hefyd, yn achos llawer o bobl ifanc gwledig, mae'r gallu i fyw yn agos i'w gweithle yn ffactor hollbwysig i sicrhau dyfodol cynaliadwy. Rhaid i reolau cynllunio adlewyrchu anghenion y gymuned gyfan, nid y sefydliad sydd â'r lleisiau uchaf yn unig.

Yn olaf, bydd ein haelodau yn dweud fod arnynt angen llonydd i barhau i ffermio, yn lle cael eu llesteirio gan waith papur neu eu gorfodi i fod yn geidwaid. Mae arnom eisiau cynhyrchu bwyd i'n gwlad, ac wrth wneud hynny, credwn y gallwn hefyd gyflawni defnydd tir cynaliadwy wrth i gynhyrchedd uchel gael ei gyfuno ag arferion rheoli tir da.

**__A oes camau allweddol y gallwn eu cymryd i gyflawni atebion sydyn yn y tymor byr a chamau y dylem eu cymryd yn y tymor hir?__**

Mae'n anodd cyflawni atebion sydyn â chymaint o ffactorau anhysbys ar hyn o bryd (o ran sut datblygir y PAC yn y dyfodol a'r gefnogaeth a fydd ar gael). Fodd bynnag, un awgrym fuasai

cymell y defnydd o baneli solar ar doeau ac adeileddau presennol eraill i warchod tir Cymru rhag cael ei ddefnyddio i wneud hyn.

Blaenoriaeth allweddol arall yw sicrhau fod gweision sifil a’r sawl sy’n gyfrifol am weinyddu’r cynlluniau neu’r rheolaethau a sefydlir yn cael eu hyfforddi’n llawn ac yn gyfarwydd â’r cynlluniau hynny a'r dewisiadau ar gael i'r sawl sy'n eu defnyddio. Mae hyn yn wir hefyd yn achos cynlluniau amlasiantaethol, oherwydd, yn rhy aml, ni fydd staff yn gallu cynorthwyo ac ni fydd neb i’w weld yn gwybod yr ateb, a phennir terfynau amser afrealistig. Mae cynllunio trwyadl yn hanfodol i sicrhau darpariaeth gadarn.

Unwaith eto, mae annog mynediad ledled Cymru at fand eang cyflym iawn sy’n caniatáu i fusnesau gwledig weithredu’n llawn yn hanfodol cyn symud at ddefnydd gorfodol o gyfleusterau ar-lein.  Mae hyn yn golygu fod rhaid i gefnogaeth wyneb yn wyneb a dros y ffôn fod ar gael nes caiff hynny’n ei sicrhau.

Croesawn y cyfle i drafod hyn yn fanylach.